

Beth mae gwerth am arian yn ei olygu i ni

united
welsh

Yn United Welsh, mae gwerth am arian yn golygu gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau er budd ein cwsmeriaid a'n cymunedau.



Rydym yn gweithio i ddarparu ein gwasanaethau'n effeithlon, yn

brydlon ac yn syml, heb wastraffu adnoddau. Rydym hefyd yn gwybod nad effeithlonrwydd yn unig sy'n bwysig o ran gwerth am arian; mae effeithiolrwydd yr un mor bwysig.



Rydym yn deall bod angen defnyddio ein

cyfalaf, ein hasedau a'n hadnoddau'n effeithiol ac mewn ffordd fasnachol, gan roi lle i arloesi a sicrhau'r elw gorau posibl ar ein buddsoddiadau.



Rydym yn cydnabod y gallwn gyflawni

canlyniadau rhagorol drwy werthfawrogi ein pobol a buddsoddi ynddynt.

Mae ein Hegwyddorion Arweiniol yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn gwneud ein gorau dros ein cwsmeriaid a'n cymunedau. Mae pob un ohonynt yn gysylltiedig â'r ffordd rydym yn sicrhau gwerth am arian:

Gwrando ac ymgysylltu

Rydym yn gwrando ar ein cwsmeriaid a'n staff ac yn defnyddio eu profiadau i wneud penderfyniadau gwell a gwella ein gwasanaethau.

Fforddiadwyedd

Ein nod yw cadw rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy a darparu cartrefi a gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian.

Llywodraethu cadarn

Rydym yn rheoli ein harian a'n risgiau'n ofalus er mwyn cynnal ein sefyllfa ariannol gadarn a gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau.

Roedd 84% yn fodlon â'r gwerth am arian a gynigir gan y rhenti a godir.

Partneriaeth

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau cymunedol i rannu arbenigedd a gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Cynhwysiant









Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n cymunedau, ac yn trin pawb â pharch.

Mae gan 49% o'n cartrefi sgôr B neu uwch ar eu Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), sy'n golygu eu bod yn fwy effeithlon o ran ynni ac yn fwy fforddiadwy.

Mae'r Gwasanaeth Dychwelyd Pwrpasol yn parhau i gefnogi pobol sy'n symud o ofal seiciatrig preswyl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau. Mae cynnydd yng ngallu'r gwasanaeth wedi ei alluogi i gynnig cymorth tymor byr am tua chwech i wyth wythnos i bobol sy'n dychwelyd adref ar ôl cael eu derbyn i'r ysbyty am driniaeth seiciatrig aciwt. Mae hyn gryn dipyn yn fyrrach na'r cyfnod cymorth arferol, a all bara dwy i dair blynedd. O ganlyniad, gall y gwasanaeth gefnogi mwy o bobol ac ymateb yn hyblyg i anghenion unigol.

Gwnaethom welliannau sylweddol i unitedwelsh.com ac i wefan Harmoni Homes, a lansio Ardal Preswylwyr newydd ar sail adborth gan ein Grŵp Cyfathrebu â Chwsmeriaid.

Nod y gwelliannau hyn yw ei gwneud yn haws i breswylwyr ddod o hyd i wybodaeth am eu cartrefi a defnyddio ein gwasanaethau.



Cyfartaledd y sector:
Y cyfartaledd hwn yw canolrif drafft Cyfrifon Cyfunol Cymdeithasau Tai Cymru 2024/25 ar gyfer cymdeithasau tai traddodiadol.